# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2016

Amser: 09.20 - 12.11

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/3783) yn:

http://senedd.tv/cy/3783

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Steffan Lewis AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Huw David, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Mari Thomas, Welsh Local Government Association (WLGA)<br>Jon Rae, Welsh Local Government Association (WLGA)<br>Yr Athro Marcus Longley, Prifysgol De Cymru<br>David Robinson, Community Links<br>Anita Charlesworth, Health Foundation<br>Yr Athro Ceri Phillips, Prifysgol Abertawe |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br><br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Reckless AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mari Thomas, Swyddog Polisi Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC, y Cynghorydd Huw David (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr), Llefarydd CLlLC ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cynghorydd Anthony Hunt (Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen), Dirprwy Lefarydd CLlLC ar gyfer Cyllid ac Adnoddau.

3.2 Cytunodd CLlLC i ddarparu nodyn ar ei asesiad o ddigonolrwydd y gyllideb ar gyfer 2017-18 i ymdrin â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

## 4 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Robinson, OBE, Uwch Gynghorydd Community Links, yr Athro Ceri Phillip, Athro Economeg Iechyd, Prifysgol Abertawe, yr Athro Marcus Longley, Cyfarwyddwr Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ac Athro Polisi Iechyd Cymhwysol, Prifysgol De Cymru ac Anita Charlesworth, Cyfarwyddwr Ymchwil ac Economeg, y Sefydliad Iechyd.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Trafod y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2017-18: Ystyried yr adroddiad drafft

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft â mân newidiadau.

## 8 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru

8.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr ar weithredu Deddf Cymru 2014 yn y flwyddyn newydd.

## 9 Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Trafod y cyngor arbenigol

9.1 Trafododd y Pwyllgor bapur ar gyngor arbenigol ar gyfer y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) a phenderfynodd peidio â phenodi cynghorydd arbenigol.